
Archifau Gwent Archives

GWASANAETH ARCHIFAU ACHREDEDIG
ACCREDITED ARCHIVE SERVICE



# Canllaw i Athrawon



Plan No. XXIX
BLAENAVON
IRON WORKS
and part of the
LIBERTY
in the Parishes of
LLANOVER
and
Llanwenarth.
Plan No. XXXIII
PARISH
PARISH OF
Cwm Nant y Gwaith Newydd
Pen Cae'r Mynydd
Railways
Tunnel
Blaenavon Company
Quick Building
Cwm Dyfun
Cinder heap
Cae Bach
River Row
Furnaces
Cinder heap
Capel Leigh Esqr.
BLAENAVON COMPANY
Coed cae Wyon
Bunkers Hill
Powder House
Stone
Railways
Railway
GREAT HOUSE
Railway from Ponty Pool
WILLIAM JAMES
BLAENAVON CHURCH

# Cynnwys


**Ein Casgliadau a Meysydd Dysgu a Phrofiad 2**

- Mapiau 2
- Cofrestrau Plwyfi 3
- Papurau Personol 5
- Cofnodion Ysgolion 6
- Cofnodion Cyfrifiad 7
- Gweithredoedd, Prydlesi a Siarteri 8
- Hanes Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru 9
- Crynodeb 10

# Ein Casgliadau a Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae ein casgliadau helaeth yn rhychwantu'r cyfnod o'r 1200au i'r 2000au, a gellir eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o bynciau. Bydd y canllaw hwn yn rhoi rhai enghreifftiau o'n casgliadau a sut y gellir eu defnyddio ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad a'u cysylltu at hanes Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

Mae'r adrannau canlynol yn tynnu sylw at rai o'n casgliadau niferus y gellir eu defnyddio i gefnogi'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, a sut y gellir eu defnyddio;

## Mapiau

**Meysydd Dysgu a Phrofiad:**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau;
- Mathemateg a rhifedd;
- Gwyddoniaeth a thechnoleg;
- a'r Celfyddydau mynegiannol.

Mae gan yr Archifau ddewis eang o fapiau yn ein casgliadau, o fapiau ystadau i fapiau'r Arolwg Ordnans. Mae'r rhain yn ffordd wych o gyflwyno myfyrwyr i'r newidiadau hanesyddol a ddigwyddodd yn eu hardal leol. Gall myfyrwyr gymharu a chyferbynnu mapiau o gyfnodau amser gwahanol gyda ffotograffau o'r awyr a mapiau heddiw;

- i ddatblygu sgiliau darllen mapiau,
- adnabod tirnodau lleol
- a newidiadau yn nhwf poblogaethau a diwydiannau lleol.

Gan i nifer o'r trefi yn Sir Fynwy gael eu sefydlu yn ystod y 'Chwyldro Diwydiannol', gellir defnyddio mapiau i ysgogi trafodaethau ynghylch cynllunio trefi;

- pam fod eu tref leol wedi'i chynllunio fel y mae?
- Pa gyfleusterau sydd eu hangen ar y trefi a'r gweithwyr?
- Pa gysylltiadau trafnidiaeth sydd eu hangen ar gyfer nwyddau a'r cyhoedd?

Gallai myfyrwyr wneud ymarfer creadigol lle maent yn ailgynllunio eu tref neu'n creu eu trefi eu hunain. Gellir eu defnyddio hefyd i drafod ar gyfer pwy y mae mapiau'n cael eu gwneud a sut maen nhw'n cael eu gwneud.

Gellir croesgyfeirio mapiau gyda chofnodion eraill yn ein casgliadau, fel cofnodion plwyfi neu ysgolion – er enghraifft, mae cofrestrau derbyn ysgolion yn cynnwys enw a chyfeiriad plentyn. Gellid plotio'r cyfeiriad ar fap arolwg ordnans a gallai myfyrwyr fesur llwybr y plentyn i'r ysgol neu i dirnodau eraill.

# Cofrestrau Plwyfi

**Meysydd Dysgu a Phrofiad:**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau;
- Mathemateg a rhifedd;
- a Iechyd a lles.

Mae cofrestrau'r plwyf yn cynnwys bedyddiadau, priodasau a chladdedigaethau a gynhaliwyd yn eglwys y plwyf yn lleol.

| Mae bedydd fel arfer yn cofnodi | Mae priodas yn cofnodi | Mae claddedigaeth yn cofnodi |
|---|---|---|
| • enw'r person<br>• enwau'r rhieni<br>• swydd y tad<br>• ble roedden nhw'n byw | • enwau'r briodferch a'r priodfab<br>• eu hoedrannau<br>• swyddi a ble oedden nhw'n byw<br>• ac enwau a galwedigaethau eu tadau | • enw'r person,<br>• oedran y person a ble oedd yn byw<br>• weithiau bydd yn cynnwys achos y farwolaeth |

Mae llawer o'r cofnodion hyn wedi'u digido ac maent ar gael ar-lein trwy'r gwefannau Find My Past ac Ancestry. Mae'n werth nodi bod y casgliad penodol hwn o gofnodion yn gysylltiedig â'r Eglwys yng Nghymru. Mae gan yr Archifau gofnodion Anghydffurfiol (Capeli) ac Iddewig hefyd.

Mae'r cofnodion hyn yn cynnig cyfle i fyfyrwyr;

- ddehongli hen lawysgrifen
- a dadansoddi data hanesyddol.

Trwy ddewis dau ddyddiad gwahanol o gofnodion y plwyf, gall myfyrwyr ymgymryd â thasg dadansoddi data ar gyfer swyddi a disgwyliad oes.

Gellir defnyddio cofrestri plwyf mewn cysylltiad â'r mapiau, y cyfrifiad a chofnodion ysgolion - fodd bynnag, gellir eu defnyddio hefyd fel man cychwyn i archwilio hanes gofal iechyd a chreu'r GIG.

Er enghraifft, mae'r isod yn rhoi cyfeiriad Charles Foley fel y Wyrcws – roedd yn rhywle y byddech chi'n mynd os oeddech chi'n amddifad, ond roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel ysbyty. Cafodd nifer o hen wyrcwsau eu haddasu yn ysbytai ar ôl creu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae gan yr Archifau nifer o gofnodion wyrcws, cofnodion ysbyty, cofnodion iechyd meddwl a chofnodion cymdeithasau cymorth meddygol.

Cewch ragor o wybodaeth am y cofnodion crefyddol sydd gennym ar ein gwefan, yma.

Page 238.

**BURIALS** in the Parish of *Abergavenny* in the County of *Monmouth* in the Year 18*40*.


| Name. | Abode. | When buried. | Age. | By whom the Ceremony was performed. |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Sarah Jones Widow<br>worn out<br>No. 1897. | Butcher Row | April 3d. | 79 | W. Powell Vicar |
| Charles Foley<br>hydrocephalus<br>No. 1898. | Workhouse<br>casual poor | 7th. | 1 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| James Parry<br>Scrophula<br>No. 1899. | Union<br>Frogmore Street | 9th. | 25 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| William Nicholas<br>Phthisis & dropsy<br>No. 1900. | Union<br>Monk Street | 10th. | 42. | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| Robert Williams<br>typhus fever<br>No. 1901. | Union<br>Monk Street | 13th. | 3/12 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| Mary Anne Tranter<br>typhus fever<br>No. 1902. | Union<br>Cross street | 13th. | 15 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| David Barry<br>convulsions from teething<br>No 1903. | Workhouse<br>from Aberystruth | 18th. | 1 3/12 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |
| Richard Absalom<br>inflammation of lungs<br>No. 1904. | Workhouse<br>casual poor | 21st. | 24 | Revd. H: Peake B.A<br>Chaplain |

# Papurau Personol

**Meysydd Dysgu a Phrofiad:**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau
- a'r Celfyddydau mynegiannol.

Mae gan Archifau Gwent amrywiaeth eang o bapurau personol sy'n amrywio o lythyrau a chardiau post i ddyddiaduron. Maent yn crisialu profiadau unigolion wrth deithio drwy Gymru, archwilio tiroedd tramor a phrofi ffosydd gwlyb, mwdlyd y Rhyfel Byd Cyntaf. Gall y dogfennau hyn helpu'ch dosbarth i brofi'r gorffennol o bersbectif unigolyn, ond gellir eu defnyddio hefyd fel promptiau ar gyfer ysgrifennu creadigol ac i archwilio newidiadau mewn dulliau cyfathrebu a datblygiadau mewn trafnidiaeth.



Monday. Night

Pte. W. O'Brien 24766
Wellington 2
13 Coy. Grenadier Gua
Caterham. Surry

D5963/1/1/3

My Dear Rose

I recived your most welcome letter quite safe on Sunday morning after I came back off Church Parade and I was most pleased to hear from you again & that you are quite well, Well Rose things are about the same here and I feel in the pink and I am now quite used to Barrack life & soldiering & I think it is the best job I have ever had the only fault about it is that the money is so little but however I have no need to grumble as I have nothing to buy except a few odds & ends, so I am

# Cofnodion Ysgolion

**Meysydd Dysgu a Phrofiad:**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau;
- Gwyddoniaeth a thechnoleg;
- Iechyd a lles;
- a Mathemateg a rhifedd


Mae ein casgliadau yn cynnwys nifer o gofnodion ysgolion – yn amrywio o gofrestrau derbyn a llyfrau log i lyfrau cosb. Efallai bod gennym y cofnodion ar gyfer eich ysgol chi!

Ar gofrestrau derbyn mae enwau, dyddiad geni a chyfeiriad disgyblion ac, weithiau, eu rheswm dros adael yr ysgol. Gallant hefyd gynnwys cofnodion yn ymwneud â phlant a oedd yn ffoaduriaid o Wlad Belg a ddaeth i Brydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Gellir defnyddio cofrestrau derbyn mewn cysylltiad â mapiau, cofnodion plwyf, a'r cyfrifiad i enwi ond ychydig. Gallant roi mewnwelediad i deuluoedd a oedd wedi gadael yr ardal i ddod o hyd i waith mewn mannau eraill yn ystod cyfnodau o ddirywiad diwydiannol, a phlant a oedd wedi gadael yr ysgol i ddod o hyd i waith yn ifanc. Mae'n werth nodi bod rhai cofnodion derbyn wedi'u digido ac y gellir eu cyrchu ar-lein trwy wefan Ancestry a Find My Past.

Bydd llyfrau log yn dogfennu'r gwaith o redeg yr ysgol o ddydd i ddydd ond gallant hefyd gofnodi digwyddiadau fel newidiadau eithafol yn y tywydd, achosion o salwch fel y frech goch, clwy'r pennau a'r 'ffliw' Sbaenaidd; yn ogystal ag effaith digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol ar yr ardal leol (er enghraifft streiciau, Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd).

Sylwch y gallai fod rhai cyfyngiadau o ran cael mynediad at y cofnodion hyn gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol unigolion a gwybodaeth sensitif arall. Cewch agor o wybodaeth ynghylch pa gofnodion ysgolion sydd gennym ar ein gwefan, yma.



# Cofnodion Cyfrifiad

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau;
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Gellir cyrchu gwefannau hanes teulu Find My Past ac Ancestry trwy gyfrifiaduron yn ein Hystafell Ymchwil neu yn eich llyfrgell leol. Mae gan y gwefannau hyn fynediad at y cyfrifiad rhwng 1841 a 1921, a Chofrestr 1939.

Mae'r cyfrifiad yn rhoi cipolwg ar aelwyd ar adeg benodol mewn amser ac yn rhoi cipolwg ar alwedigaethau, maint teuluoedd, addysg a mannau geni.

Gellir defnyddio'r cyfrifiad i gynnal dadansoddiad data ar gyfer stryd benodol, gellir ei ddefnyddio i gymharu a chyferbynnu strydoedd neu adeiladau dros gyfnod hir o amser, gellir croesgyfeirio'r cyfrifiad at ystod eang o'r cofnodion yn ein casgliadau, er enghraifft mapiau, cofnodion plwyf, cynlluniau adeiladu a chofnodion iechyd; a gellir ei ddefnyddio i olrhain taith unigolion trwy amser.

Gellir defnyddio'r cyfrifiad hefyd i;

- ddangos newidiadau yn addysg a chyflogaeth plant;
- rôl menywod yn y cartref ac yn y gwaith;
- a chysylltiadau Cymru â'r gymuned ryngwladol a'r byd ehangach.



# Gweithredoedd, Prydlesi a Siarteri

**Meysydd Dysgu a Phrofiad**

- Iaith, llythrennedd a chyfathrebu;
- Dyniaethau;
- Gwyddoniaeth a thechnoleg;
- a'r Celfyddydau mynegiannol

Roedd y sêl hardd hon wedi ei gwneud o gwyr ac yn perthyn i Jasper Tudur a oedd yn Ddug Bedford, Iarll Penfro ac Arglwydd y Fenni. Roedd hefyd yn hen ewythr i Harri VIII! Mae'r ddogfen hon yn gytundeb rhwng Jasper Tudur a Hoel ap Gwilim David ap Griffith ynghylch tŷ a deg erw o dir. Ar un ochr i'r sêl fe welwch Jasper Tudur ar ei geffyl, ei gleddyf yn yr awyr a'i arfbais teuluol ar ei darian. Ar y cefn mae arfbais y teulu Tudor.

Efallai eich bod yn ofn defnyddio llawer o'n dogfennau hŷn ond gall plant eu defnyddio i archwilio testunau gwahanol, er enghraifft;

Gellir defnyddio seliau fel y rhain i drafod newidiadau mewn llythrennedd - ni allai llawer o bobl mewn hanes ysgrifennu eu henw eu hunain felly byddent yn defnyddio sêl adnabyddadwy i 'lofnodi' dogfennau swyddogol. Gellir eu defnyddio hefyd fel ymarfer creadigol a chael y dosbarth i ddylunio eu sêl eu hunain - beth fydden nhw'n ei roi ar eu harfbais, sut fyddai eraill yn gwybod mai eu sêl nhw oedd hi?

Mae ein dogfennau hŷn hefyd yn dueddol o fod wedi cael eu hysgrifennu ar femrwn gan ddefnyddio inc galig haearn. Gallai gwyddoniaeth a thechnoleg archwilio'r hanes wrth fynd o femrwn i bapur, o ysgrifenwyr unigol i argraffu màs, ac o ddefnyddio inc galig haearn (a wnaed gartref!) i feiros.




## Hanes Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru

Mae'r Archifau yn dal i weithio i ddeall faint o'n casgliadau sy'n gysylltiedig â'r ymerodraeth, caethwasiaeth ac amrywiaeth. Mae ein casgliadau yn cynnwys bedyddiadau dynion a oedd yn gaethweision yn Nhrefynwy; rhestrau o ddynion, menywod a phlant a oedd yn gaethweision ac a oedd yn byw ar blanhigfeydd; a chofnodion yn ymwneud â Therfysgoedd Hil Casnewydd yn 1919. Mae gennym hefyd nifer o gofnodion a chyhoeddiadau sy'n ymwneud â Dociau Casnewydd sy'n sôn am nwyddau a ddaeth i Gymru ac o ble y daethant.

Mae'r ffotograff hwn wedi'i dynnu o Gofrestr Carchar Brynbuga. Mae John Mason yn ddyn du 18 oed sy'n byw yn Forge Row, Glyn Ebwy yn y 1870au. Mae'n cael ei ddisgrifio fel labrwr a allai fod wedi cael ei gyflogi yng Ngwaith Dur Glyn Ebwy. Mae'r Gofrestr yn dweud wrthym fod John Mason wedi ei eni ar ynys Saint Helena - lle sydd â chysylltiadau â'r Ymerodraeth Brydeinig a'r fasnach gaethweision. Amcangyfrifir bod y Prydeinwyr wedi dod â 27,000 o gaethweision o orllewin Affrica i'r ynys ar eu ffordd i America. Diddymwyd caethwasiaeth ar ynys Saint Helena yn 1839 – ganwyd John yn 1854.

Gallai cofnod John Mason yn y gyfrol hon ysgogi trafodaethau am gaethwasiaeth a'r Ymerodraeth, yn ogystal â thrafodaethau ac ymarferion creadigol ynghylch sut y gwnaeth John Mason ei ffordd o ynys Saint Helena i Lyn Ebwy (fwy na thebyg trwy Gasnewydd).



## Crynodeb

Dim ond ychydig o’r cofnodion niferus sydd gennym yw’r rhain, ac ambell awgrym ar gyfer sut y gellir eu defnyddio i gefnogi'r cwricwlwm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Archifydd Ymgysylltiad Cymunedol, Rhiannon Phillips, drwy enquiries@gwentarchives.gov.uk. Byddwn yn gallu argymell casgliadau addas, awgrymu ymarferion posibl a darparu amrywiaeth o adnoddau.

